

Craidd - Sbardun 1 – Y Tywysog Charles a'r Telynorion o Gymru

Ers 2000, mae'r Tywysog Charles wedi penodi Telynor Brenhinol Swyddogol i ganu'r delyn mewn achlysuron swyddogol a phreifat. Hyd yma, merched o Gymru fu pob un ohonyn nhw:

- Catrin Finch (2000-2004)
- Jemeima Phillips (2004-2007)
- Claire Jones (2007-2011)
- Hanna Stone (ers 2011)

Hen draddodiad

Nid rhywbeth newydd i deulu brenhinol Lloegr yw cael telynor swyddogol. Y Frenhines Victoria oedd â'r telynor swyddogol diwethaf, sef John Thomas. Mae'n enwog am gyfansoddi darn i'r delyn ar alaw 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn'.

Catrin Finch

Catrin Finch oedd Telynor Brenhinol Swyddogol cyntaf y Tywysog Charles. Chwaraeodd hi'r delyn yn y Plasau Brenhinol ac i deuluoedd brenhinol o wledydd dros y byd i gyd.

Claire Jones

Dyma Claire Jones, sy'n dod o sir Benfro'n wreiddiol, yn disgrifio'r broses o benodi telynor swyddogol:

"Anfonodd y Palas lythyrau i bob un o'r ysgolion cerdd i chwilio am y Telynor Swyddogol nesaf," meddai. "Roedd tri thelynor ar y rhestr fer. Roedd rhaid gwneud clyweliad o flaen Ysgrifennydd Preifat y Tywysog Charles a thri thelynor enwog. Yna, gwnes i glyweliad preifat i'r Tywysog Charles."

Perfformiodd Claire mewn dros 160 achlysur brenhinol dros bedair blynedd. Un o'r achlysuron olaf iddi oedd priodas y Tywysog William (mab y Tywysog Charles) â Katherine Middleton.

Hwb i delynor

Mae cael bod yn Delynor Brenhinol Swyddogol yn hwb mawr i delynorion. Mae'r rhai sydd wedi bod yn y swydd yn gallu defnyddio'r teitl ar ôl gorffen.

Y delyn – offeryn i ferched?

Erbyn heddiw, mae'n debyg fod mwy o ferched na bechgyn yn canu'r delyn. Pwy sy'n canu'r delyn yn eich dosbarth/ysgol chi? Ond ers talwm, dynion oedd y rhan fwyaf o'r telynorion. Dyma lun o Mr Roberts, Telynor y Drenewydd, gan y ffotograffydd John Thomas, (1838-1905).

Craidd - Sbardun 2 – Tywysog Cymru

- Mae 23 tywysog Cymru wedi bod. Dau Gymro, a'r 21 arall yn Saeson.
- Tywysog cyntaf Cymru gyfan oedd Llywelyn ap Gruffudd (Llywelyn ein Llyw Olaf) yn 1267.
- Cafodd Llywelyn ei ladd gan fyddin y Brenin Edward 1 o Loegr. Digwyddodd hyn yng Nghilmeri yn 1282.

- Wedyn, daeth brawd Llywelyn, Dafydd ap Gruffudd, yn dywysog Cymru. Cafodd ei ddiennwyddio gan Edward I yn 1283, ar ôl bod yn dywysog am flwyddyn.

- Erbyn 1301, roedd y Brenin Edward I o Loegr wedi concro Cymru. Penderfynodd roi teitl tywysog Cymru i'w fab, y Tywysog Edward. Roedd Edward I yn ceisio cael y Cymry i fod yn deyrngar i goron Lloegr.

- Cafodd 19 o'r tywysogion o Loegr eu harwisgo yn Lloegr. Ond yn 1911 a 1969, digwyddodd yr arwisgo yng nghastell Caernarfon.

- Y Tywysog Charles (mab hynaf y Frenhines Elizabeth) sydd â'r teitl heddiw. Cafodd ei arwisgo yng nghastell Caernarfon yn 1969. Mae ganddo gartref ym Myddfai, ger Llanymddyfri yn sir Gaerfyrddin.

Arwyddlun Tywysog Cymru – Tair pluen

Beth yw'r arwyddlun?

- Tair pluen estrys mewn coron fechan

Beth yw'r arwyddair?

- 'Ich dien'. (Rwyf yn rhoi gwasanaeth – yn Almaeneg)

Ers pryd mae'n cael ei ddefnyddio?

- Ers y 16eg ganrif. Roedd y tair pluen gyntaf yn edrych ychydig yn wahanol (Photo: Arms of the Prince of Wales: Photo heading: Y tair pluen gyntaf)

Pwy sy'n defnyddio'r tair pluen?

- Undeb Rygbi Cymru
- Milwyr y Gatrawd Frenhinol Gymreig (*Royal Welsh Regiment*)
- Cefn y darn dwy geiniog (rhwng 1971 a 2008)

Craidd - Sbardun 3 – Idiomau ‘brenin’, ‘coron’ a ‘gwlad’

diwrnod i’r brenin = diwrnod o’r ysgol/gwaith

Ddoe, roedd yr ysgol ar gau oherwydd yr eira, felly cawson ni ddiwrnod i’r brenin.

Mae A yn frenin wrth B = mae A yn llawer, llawer gwell na B.

Mae esgidiau Dan yn wael ond maen nhw’n frenin wrth esgidiau Huw!

Y Goron Driphlyg = Triple crown

Gobeithio y bydd tîm rygbi Cymru’n ennill y Goron Driphlyg eleni, ond mae’n anodd curo Lloegr, yr Alban a’r Iwerddon.

i goroni’r cyfan = ar ben popeth arall, to cap it all

Mae gen i waith cartref Saesneg, Cymraeg a hanes heno, ac i goroni’r cyfan, mae prawf mathemateg yfory.

gwlad dramor (b) = gwlad wahanol i Gymru, dros y dŵr efallai

Hoffet ti weithio mewn gwlad dramor rywbryd?

llond gwlad = llond y lle

Roedd llond gwlad o bobl yn y gêm.

gwlad y gân = disgrifiad o Gymru’n wlad lle mae pawb yn canu/hoffi cerddoriaeth

Wyt ti wedi clywed côr ‘Only Boys aloud’? Maen nhw’n profi mai Cymru yw gwlad y gân.

cefn gwlad = ardal sydd ddim yn y dref neu’r ddinas

Sylwch: does dim angen ‘y’ cyn ‘cefn gwlad’

Symudodd fy ffrind o Abertawe i gefn gwlad Ceredigion y llynedd.

Estynnol - Sbardun 1 – Urien – Brenin o’r Chweched Ganrif

Yn y chweched ganrif, roedd pobl yn siarad Cymraeg mewn ardaloedd sydd yng ngogledd Lloegr ac yn ne’r Alban nawr (gweler y map). Yr Hen Ogledd yw’r enw Cymraeg ar yr ardaloedd hyn heddiw.

Brenhinoedd yr Hen Ogledd

Roedd sawl teyrnas yn yr Hen Ogledd. Roedd brenin i bob teyrnas, a bardd gan sawl brenin. Yn nheyrnas Rheged, Urien oedd enw’r brenin. Enw ei fardd oedd Taliesin.

Cerddi Taliesin

Darn allan o Lyfr Taliesin.

Roedd Urien yn rhoi nawdd i Taliesin. Beth oedd y nawdd? Dydyn ni ddim yn hollol siŵr, ond mae’n debyg mai pethau fel llety, bwyd, dillad ac ati. Felly, roedd Urien yn noddï Taliesin. Am y nawdd, roedd Taliesin yn cyfansoddi cerddi i Urien.

Mae 12 cerdd gan Taliesin ar gael o hyd heddiw. Maen nhw mewn Hen Gymraeg, felly mae’n eithaf anodd eu deall nhw. Yn y cerddi, mae Taliesin yn moli Urien neu ei fab Owain fel:

noddwr hael

amddiffynnydd cadarn

Ar ddiwedd sawl cerdd, mae Taliesin yn dweud mai moli Urien sy’n gwneud iddo fod yn hapus.

Mewn un gerdd, mae Taliesin yn sôn am Urien, Owain ei fab a’u milwyr mewn brwydr fawr yn erbyn rhywun o’r enw Fflamddwyn (dyn sy’n cario fflam/tân). Ar ddiwedd y gerdd, mae Taliesin yn disgrifio sut enillodd Urien ac Owain y frwydr a lladd Fflamddwyn.

Mae cerddi Taliesin mewn llawysgrif o’r enw Llyfr Taliesin. Mae’r llyfr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Estynnol - Sbardun 2 – Arwisgo Tywysog Cymru, 1969

Cafodd pob plentyn ysgol yng Nghymru gynnig mwg (Myg y Prins) i gofio am yr arwisgo. Gwrthododd rhai plant dderbyn y mwg. Mae rhai mygiau ar werth ar *ebay* erbyn hyn!

Cafodd y Tywysog Charles ei arwisgo'n dywysog Cymru ar 1 Gorffennaf 1969. Digwyddodd yr arwisgo yng nghastell Caernarfon.

Cyn yr arwisgo, roedd cynnwrf mawr yng Nghymru. Roedd llawer o bobl yn teimlo'n gryf na ddylai Sais fod yn Dywysog Cymru. Roedd rhai pobl yn gwisgo bathodyn gyda 'Dim Sais yn Dywysog Cymru' arno. Cafodd sawl rali fawr eu cynnal, gyda phobl yn siarad yn erbyn yr arwisgo.

Aeth MAC (Mudiad Amddiffyn Cymru) ati i osod bomiau mewn sawl man: Caer, Caerdydd a Chaernarfon. Y noson cyn yr arwisgo, cafodd dau aelod o'r mudiad eu lladd gan eu bom eu hunain wrth swyddfeydd y llywodraeth yn Abergele.

Roedd yr heddlu cudd yn gwyllo llawer o bobl cyn yr arwisgo. Roedden nhw'n ofni bod pobl yn paratoi cynllwyn i darfu ar y seremoni yng Nghaernarfon. Cafodd rhai pobl eu harestio er eu bod nhw'n ddieuog.

Treuliodd y Tywysog Charles ddeg wythnos ym mhrifysgol Aberystwyth i ddysgu am yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn ystod y seremoni yng Nghaernarfon, siaradodd yn Gymraeg a Saesneg.

Hefyd, rhoddodd y tywysog araith Gymraeg ym mhabell Eisteddfod yr Urdd. Ond cyn iddo siarad, cododd llawer o aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar eu traed i brotestio. Doedden nhw ddim yn hapus o gwbl bod yr Urdd yn rhoi croeso i'r Tywysog Charles. Yn ystod y brotest, dalion nhw bosteri gyda'r gair 'BRAD 1282' a 'BRADYCHWYD YR URDD' arnyn nhw. Wedyn, cerddodd tua chant o bobl allan o'r babell gyda'r bobl ifanc.

Cafodd Abertawe ei gwneud yn ddinas yn 1969 i ddynodi'r arwisgo.

Carlo

Recordiodd Dafydd Iwan gân o'r enw 'Carlo' i wneud hwyl am ben y ffaith fod pawb wedi gwirioni ar gael tywysog Cymru newydd. Gwerthodd y record 15,000 copi.

Gallwch glywed y gân a gweld y geiriau gyda chyfieithiad Saesneg ar YouTube. Sylwch fod angen to bach ar 'y gân' a 'mân'. (http://www.youtube.com/watch?v=Z7_y1CkbOHg)

Estynnol - Sbardun 3 – Cilmeri, 11 Rhagfyr 1282

Pam mae Cilmeri'n bwysig?

Mae Cilmeri'n bwysig oherwydd mai dyma lle cafodd Llywelyn ap Gruffydd ei ladd. Fe oedd yr unig dywysog Cymraeg i frenin Lloegr ei gydnabod fel Tywysog Cymru.

Beth oedd y sefyllfa cyn mis Rhagfyr 1282?

Roedd Llywelyn wedi bod yn ymladd erbyn ei dri brawd: Owain, Rhodri a Dafydd, i ennill tir yng Ngwynedd.

- O 1255 i 1275, cadwodd Llywelyn ei frawd Owain yng Nghastell Dolbadarn.
- 1258 - Galwodd Llywelyn ei hun yn Dywysog Cymru am y tro cyntaf.
- 1260au – Enillodd Llywelyn lawer o diroedd yn y Mers (sir Benfro, Gŵyr a dwyrain Cymru)
- 1267 – Gwnaeth Llywelyn gytundeb â'r brenin Henri III o Loegr. Roedd Henri'n fodlon cydnabod Llywelyn fel Tywysog Cymru.
- 1272 – Daeth Edward I yn Frenin Lloegr. Gwrthododd Llywelyn ei gydnabod. Aeth Rhodri a Dafydd, brodyr Llywelyn, i gefnogi Edward I.
- 1274 – Ceisiodd Dafydd ladd Llywelyn. Methodd, a ffoi i Loegr.
- 1276 – Aeth Edward I i ryfel yn erbyn Llywelyn. Cipiodd sir Fôn, oedd yn cynhyrchu llawer o wenith.
- 1277 – Gwnaeth Llywelyn gytundeb ag Edward I. Collodd lawer o dir ond cadwodd y teitl 'Tywysog Cymru'.
- 1282 – Dechreuodd Dafydd ryfel yn erbyn Edward I, ac ymunodd Llywelyn wedyn.

Beth ddigwyddodd ar ôl Cilmeri?

Cafodd pen Llywelyn ei dorri a'i anfon at Edward I yn Lloegr. Rhoddodd Edward orchymyn fod y pen yn cael ei roi ar bolyn a'i gario o gwmpas y ddinas, cyn cael ei roi ar Dŵr Llundain.

Cafodd corff Llywelyn ei gladdu yn abaty Cwm-hir, sir Faesyfed.

Cipiodd Edward I drysorau Llywelyn, yn aur ac yn arian. Hefyd, aeth â'r Groes Naid, croes werthfawr Tywysogion Gwynedd. Roedd hi'n llawn gemau ac yn cynnwys darn o bren o'r groes y bu farw Iesu Grist arni.

Cafodd Gwenllïan, merch fach Llywelyn, ei hanfon i abaty Sempringham yn swydd Lincoln. Bu farw yno yn 54 oed. Fuodd hi erioed yng Nghymru. Mae un o fynnyddoedd y Carneddau wedi cael ei enwi ar ei hôl yn ddiweddar.

Heriol - Sbardun 1 – Beth yw eich barn am y frenhiniaeth?

Mae papur lleol wedi gofyn y cwestiwn uchod a gwahodd ei ddarllenwyr i roi eu barn. Darllenwch y llythyr isod ac edrychwch ar y tasgau sy'n dilyn.

Annwyl Olygydd,

Diolch i chi am holi'r cwestiwn hwn. Nid oes pwynt cael brenhiniaeth o gwbl, yn fy marn i. Mae nifer o ddadleuon pwysig yn erbyn.

Yn gyntaf, mae'r frenhiniaeth yn groes i ddemocratiaeth. Does dim hawl gan bobl ddewis brenin neu frenhines, oherwydd bod y teitl yn cael ei etifeddu.

Yn ail, nid oes neb yn dod yn frenin neu'n frenhines oherwydd eu bod nhw'n ddeallus neu'n brofiadol, dim ond oherwydd eu bod nhw'n perthyn i deulu arbennig. Mae'r Frenhines Elizabeth yn bennaeth y lluoedd arfog, ond nid oes ganddi unrhyw brofiad o gwbl o fod yn filwr. Mae hi'n bosib i unrhyw un ym Mhrydain fod yn Brif Weinidog neu'n aelod seneddol, ond nid oes cyfle i bawb gael bod yn frenin neu frenhines. Nid yw hyn yn deg o gwbl.

Yn drydydd, mae'r frenhiniaeth yn ddrud iawn. Mae'r grŵp 'Republic' eisiau gweld arlywydd yn cael ei ethol yn lle brenin neu frenhines, ac maen nhw'n amcangyfrif bod y frenhiniaeth yn costio £202.4 miliwn o bunnoedd y flwyddyn. Rydyn ni'n talu nid yn unig am y frenhines a'r teulu agos, ond am lawer o'i theulu estynedig hefyd. Felly, mae'r 16 aelod o'r teulu sy'n 'gweithio' yn cael £12.7 miliwn yr un. Maen nhw'n gallu fforddio talu am staff i wneud popeth drostyn nhw. Felly, nid oes syniad gan y teulu brenhinol sut mae pobl gyffredin yn byw.

Yn olaf, mae'r frenhiniaeth yn rhywbeth i Brydain, ac nid i ni yma yng Nghymru. Roedd ein teulu brenhinol ein hunain gennym ni hyd at 1282. Y peth gorau i ni felly yw cael gwared ar y teulu brenhinol. Y ffordd ymlaen yw sefydlu gweriniaeth yng Nghymru, gydag arlywydd wedi'i ethol gan y Cymry.

Diolch am y cyfle i fynegi fy marn.

**Yn gywir iawn,
M. Hughes.**

Heriol - Sbardun 2 – Seremoni'r Arwisgo yng nghastell Caernarfon

CLIP FIDEO

http://www.bbc.co.uk/cymru/hanes/media/tudalen/hanes_modern_arwisgo.shtml

Mae'n dangos y Frenhines Elizabeth yn arwisgo'r Tywysog Charles, yna mae Syr Ben Bowen Thomas yn annerch y tywysog.

Heriol - Sbardun 3 – Cerddi'r Cywilydd

Enillodd Gerallt Lloyd Owen gadair Eisteddfod yr Urdd yn Aberystwyth, 1969 am gasgliad o gerddi o'r enw 'Cerddi'r Cywilydd'. Thema'r cerddi oedd y cywilydd yr oedd y bardd yn ei deimlo oherwydd bod y Cymry wedi gwirioni bod tywysog o Sais yn mynd i gael ei arwisgo'n dywysog Cymru yng Nghaernarfon.

Mae nifer o'r cerddi'n cyfeirio at Lywelyn ein Llyw Olaf, ac am ei farwolaeth yng Nghilmeri yn 1282.

Dyma ddetholiad o'r gerdd enwog 'Fy ngwlad':

Fy Ngwlad
Wylit, wylit, Lywelyn,
Wylit waed pe gwelit hyn.
Ein calon gan estron wŵr,
Ein coron gan goncwerwr,
A gwerin o ffafgarwyr
Llariaidd eu gwên lle'r oedd gwŷr.

Fe rown wên i'r Frenhiniaeth,
Nid gwerin nad gwerin gaeth.
Byddwn daeog ddiogel
A dedwydd iawn, doed a ddêl,
Heb wraidd na chadwynau bro,
Heb ofal ond bihafio.

.....

Fy ngwlad, fy ngwlad, cei fy nghledd
Yn wridog dros d'anrhydedd.
O gallwn, gallwn golli
Y gwaed hwn o'th blegid di.